



# Ysgol Pentreuchaf

## 52. Polisi Darparu ar gyfer Disgyblion ag Anabledd

### 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â disgyblion sydd ag anabledd corfforol.

### 2. Cyd-destun

2.1 Dywed y Ddeddf AAA ac Anabledd 2001 bod yn rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol gymryd unrhyw gamau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion anabl a darpar ddisgyblion anabl yn cael eu rhoi o dan fantais sylweddol o'u cymharu â rheini nad ydynt yn anabl. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod y corff sy'n gyfrifol am ysgol yn gwahaniaethu yn erbyn plentyn anabl os yw'n methu â chymryd camau resymol heb gyfiawnhad, a bod y plentyn ar ei golled oherwydd hynny. Cyfeirir at hyn yn aml fel y dyletswydd addasiadau rhesymol

2.2 Nid yw'r gyfraith yn nodi beth sy'n resymol. Bydd hyn yn dibynnu ar holl amgylchiadau achos unigol

2.3 Nid ar chwarae bach y dylid penderfynu peidio â rhoi addysg i ddisgybl yn y prif ffrwd- yn erbyn dymuniadau rhieni neu'r gofalwyr. Yr unig bryd y gellir cyfiawnhau gwrthod rhoi addysg brif ffrwd i blentyn neu peron ifanc anabl yw pe bai hynny 'n amharu ar addysg plant neu pobl ifanc eraill ac nad oes camau ymarferol y gallai'r ysgol neu'r AALI eu cymryd i osgoi hynny

### 3. Datganiad o fwriad

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn ymateb yn unol a'i chyfrifoldeb statudol .

### 4. Fframwaith Statudol

4.1 Deddf AAA ac Anabledd 2001

4.3 Côt Ymarfer ar gyfer Ysgolion 2002 (Comisiwn Anabledd)

4.4 Deddf Plant 2004

4.5 Deddf Addysg 1996

### 5. Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Ni ddylid gwahaniaethu ar sail anabledd wrth ddarparu addysg ac hyfforddiant i plant a phobl ifanc .

### 6. Amcanion Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd

6.1 Yn unol a'r gofyn cyfreithiol, bydd y Gwasanaeth Ysgolion yn darparu addysg brif ffrwd i ddisgyblion ag anabledd Bydd y Gwasanaeth yn gweithredu'n rhesymol o fewn yr ystyriaethau canlynol:

- A fyddai gweithredu'r cam yn cyrraedd y nôd a'r amcan yn llwyddiannus
- I ba raddau y mae'r cam gweithredu yn ymarferol i'r ysgol a gynhelir neu'r Awdurdod
- Pa gamau a gymerwyd eisoes i hwyluso cynnwys y plentyn a pha mor effeithiol oeddynt
- Y goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau
- I ba raddau yn byddai'r cam gweithredu'n amharu ar yr ysgol.

6.2 Mae Gwasanaeth Ysgolion wedi dynodi ysgolion gydag addasiadau megis lifftiau i hwyluso mynediad i weithgareddau addas yr ysgol .

6.3 Bydd yr AALI yn unol â gofynion y Ddeddf yn cynllunio'n strategol i wneud yr holl ysgolion a gynhelir yn fwy hygyrch i ddisgyblion anabl dros amser. Rhaid i strategaethau hygyrchedd AALI ymdrin â

- Ehangu'r cyfleodd i ddisgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol
- Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol ar gyfer disgyblion anabl
- Gwella'r dull o drosglwyddo'r wybodaeth a roddir ar ffurf ysgrifenedig i ddisgyblion anabl

### 7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

7.1 Sicrhau nad yw'r ysgol yn gwahaniaethu ar sail anabledd wrth ddarparu addysg i'w disgyblion.

7.2 Sicrhau bod disgyblion ag anabledd yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac i weithgareddau addas yn yr ysgol.

### 8. Cyfrifoldeb Penaethiaid Ysgolion

8.1 Sicrhau nad yw disgybl ag anabledd yn cael ei drin yn llai ffafriol na rhywun sydd heb anabledd -

- Ehangu'r cyfleodd i ddisgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol
- Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol ar gyfer disgyblion anabl
- Gwella'r dull o drosglwyddo y wybodaeth a roddir ar ffurf ysgrifenedig i ddisgyblion eraill i ddisgyblion anabl.

8.2 Cydweithio gydag asiantaethau eraill

8.3 Sicrhau bod staff yn sensitif i gyflwr disgybl

8.4 Sicrhau nad yw disgybl ag anabledd yn cael ei ynysu e.e. mewn gwersi Addysg Gorfforol.

### Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_